**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 21ain Mai 2026 am 7.45 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Nigel Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Clerc: Denfer Morgan

**350 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies a Gary Evans am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**351 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9fed Ebrill 2026**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9fed Ebrill 2026.

**352 Materion Cylidol**

**PENDERFYNWYD** nodi derbyn taliad cyntaf praesept 2026-27 yn y swm o £2,000

**353 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio isod a **PHENDERFYNWYD** fel a nodir:

a) A260192 - Cartref Yn Y Gelli Dawel, Talsarn. Replacement dwelling of dilapidated 2 bedroom bungalow with a new 3 bedroom dwelling with roof space accommodation comprising of 1 no bedroom and gallery in roof space.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

b) A260241 - Carnau Bach, Cilcennin. Erection of an agricultural building

**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad

**354 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi trafod y sefyllfa bresennol gyda chyfreithwr y Cyngor a'i fod wedi cytuno i'r Clerc gysylltu yn uniongyrchol gydag Awdurdodau'r Eglwys.

**PENDERFYNWYD** tawdurdodi'r Clerc I fwrw mlaen gyda hwn.

**355 Unrhyw Fater Arall**

a) Cytunwyd dwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol:

- Coedyn gorhongian dros ran o'r B4339
- Roedd yr arwydd 'Ildiwch' ger Tŷ Mawr heb ei ailosod o hyd
- Twll mewn clawdd ar y ffordd fach yn arwain o Crossway
- Golau stryd diffygiol ger Glynderwen, Ciliau Aeron

b) Cytunwyd gwneud trefniadau i gynnal swper yn Nghyglyn Aeron ar 2il Hydref i ddathlu gwaith y Cyngor dros y blynyddoedd ac i ystyried gwahodd cyn-Aelodau i fod yn bresennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:25pm